CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**24/11/22**
Teitl:	**Y diweddaraf am Ddatganiad Cyfrifon 21/22**
Pwrpas yr adroddiad:	**Diweddaru'r Aelodau am Ddatganiad Cyfrifon 21/22 (gan gynnwys Cyfrifon yr Harbyrau ar gyfer 21/22).** **Er gwybodaeth**
Portffolio Cabinet:	**Cyllid a Chaffael**

1. CYFLWYNIAD

Er mwyn cydymffurfio â therfyn amser Llywodraeth Cymru ynghylch cymeradwyo Cyfrifon archwiliedig 21/22 erbyn 30/11/22, roedd disgwyl i Gyfrifon 21/22 gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17/11/22 cyn iddynt ddod gerbron y Cyngor Llawn heddiw (24/11/22).

2. DATBLYGIADAU AR LEFEL Y DEYRNAS UNEDIG

Ar hyn o bryd, mae trafodaethau yn cael eu cynnal ar lefel y Deyrnas Unedig am y driniaeth gyfrifyddu a'r gofynion cysylltiedig o ran nodiadau datgelu yng nghyswllt asedau seilwaith. Mater cyfrifyddu technegol yw hwn sy'n ymwneud yn bennaf ag asedau'r priffyrdd.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n llunio deddfwriaeth ddatganoledig ar hyn o bryd a fydd yn darparu ffurf o sicrwydd statudol o ran y mater hwn. Mae'n debyg mai dechrau Rhagfyr yw'r cynharaf y daw'r ddeddfwriaeth hon i rym. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol i ymestyn y terfyn amser o 30/11/22 i 31/01/23.

3. CASGLIAD

Ar ôl ymgynghori â swyddogion Archwilio Cymru, gan ystyried y dull gweithredu a ffefrir ganddynt hwy a gan ran fwyaf yr Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael wedi penderfynu gohirio cyflwyno Cyfrifon 21/22 hyd nes y bydd y mater ar lefel y Deyrnas Unedig o ran asedau seilwaith wedi'i ddatrys, gan nad oes modd cymeradwyo'r Cyfrifon yn llawn hyd nes bod datrysiad i'r mater hwn.

Felly, y bwriad yn awr yw cyflwyno Cyfrifon 21/22 gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19/01/23 ac yna gerbron y Cyngor Llawn ar 26/01/23.

Argymhelliad:	**Nodi'r diweddariad a roddwyd ynghylch Datganiad Cyfrifon 21/22 (gan gynnwys Cyfrifon yr Harbyrau ar gyfer 21/22)**
A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam:	**Ddim yn berthnasol**
Trosolwg a Chraffu:	**Ddim yn berthnasol**
Fframwaith Polisi:	**Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon**
Blaenoriaethau Corfforaethol:	**Pob un ohonynt**
Pwerau Statudol:	**Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014**
Papurau Cefndir:	**Dim**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	**Duncan Hall**
Swyddog Adrodd:	**Duncan Hall**
Dyddiad:	**09/11/22**